**CAIS I'R PWYLLGOR SAFONAU**
**AM OLLYNGIAD**

Nodwch fod yn RHAID llenwi pob adran. Cyfeiriwch at y Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig wrth lenwi'r ffurflen hon.

## 1. EICH MANYLION

| |
|---|
| Eich enw llawn: Carol Williams Dyer |
| Enw eich Cyngor: Cyngor Cymuned Myddfai |
| Eich cyfeiriad a'ch côd post: Penroc, Heol Llangadog, Llanymddyfri, SA20 0DZ |
| Rhif(au) ffôn: 01550720956/ 07969684418 |
| Cyfeiriad e-bost: carol.dyer@outlook.com |

## 2. MANYLION AM EICH BUDDIANT

| |
|---|
| Beth yw'r mater o dan ystyriaeth?<br>Materion yn ymwneud â Menter Bro Dinefwr |
| Beth yw eich buddiant yn y mater uchod?<br>Cyfarwyddwr - gwirfoddol |
| |
| Pryd fydd y mater uchod yn cael ei ystyried?<br>Ta pryd fydd rhywbeth yn ymwneud a MBD yn codi o flaen y cyngor |
| A ydych yn gwneud cais am ollyngiad i:<br>Siarad yn unig: ☐ Siarad a phleidleisio: ☒<br>Gwneud sylwadau ysgrifenedig ☐ Arfer Pwerau Gweithrediaeth ☐ |

## 3. RHESYMAU DROS OLLYNGIAD

Mae rheoliadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn pennu'r amgylchiadau lle gall y Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiad. Ceir crynodeb o'r rhesymau dros ganiatáu gollyngiad isod ac maent wedi'u nodi'n llawn yn y nodiadau cyfarwyddyd atodedig. Am ba un o'r rhesymau canlynol ydych chi'n credu y dylid caniatáu gollyngiad yn yr achos hwn? Ticiwch y blwch/blychau priodol.

| | |
|---|---|
| • mae buddiant gan o leiaf hanner yr aelodau sy'n ystyried y busnes | ☐ |
| • byddai fy anallu i gymryd rhan yn newid cydbwysedd gwleidyddol y cyfarfod i raddau a fyddai'n debygol o effeithio ar y canlyniad; | ☐ |
| • ni fyddai'r ffaith fy mod yn cymryd rhan yn niweidio hyder y cyhoedd | ☒ |
| • mae'r buddiant yn gyffredin i mi ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd; | ☐ |
| • mae cyfiawnhad i mi gymryd rhan yn y busnes oherwydd fy rôl neu arbenigedd penodol; | ☐ |
| • bydd y busnes yn cael ei ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu ac nid yw fy muddiant yn fuddiant ariannol; | ☐ |
| • mae'r busnes yn ymwneud â materion ariannol neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall | ☒ |
| • mae'n briodol gwneud hynny yn yr holl amgylchiadau lle nad yw'n bosibl fel arall gwneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer anabledd person | ☐ |

## 4. GWYBODAETH I GEFNOGI EICH CAIS

Nodwch isod y rhesymau pam rydych yn credu y dylai'r Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiad yn yr achos hwn:
***(Sylwch, os na fyddwch yn llenwi'r adran hon bydd y ffurflen gais yn cael ei dychwelyd atoch)***
Mae Menter Bro Dinefwr yn un o dair Menter iaith yn Sir Gar. Dyma fraslun wedi ei lunio gen i o ddyletswyddau a phwrpas cyfarwyddwr.
Sefydlwyd Menter Bro Dinefwr yn 1999 gydag un aelod o staff a throsiant o tua £30k, erbyn heddiw mae'r Fenter yn cyflogi saith aelod o staff ac mae'r trosiant wedi cynyddu i bron i £700k. Mae arian craidd y Fenter yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Gâr. Unodd y Fenter gyda Menter Dyffryn Aman yn 2007 yn sgil ail-strwythuro'r Mentrau yn y sir.

Nod Menter Bro Dinefwr yw cefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg a chyfrannu at adfywiad cymunedol ac economaidd i greu cymunedau cynaliadwy, naturiol ddwyieithog a llewyrchus. Slogan y Fenter yw 'Cymuned • Iaith • Economi' ac mae'n cydblethu drwy holl waith y Fenter. Rydym bellach yn canolbwyntio ar chwe maes penodol fel a ganlyn:

- Teuluoedd
- Plant a Phobl Ifanc
- Ysgol ac Addysg
- Y Gymuned
- Gwaith, Iaith a'r Economi
- Hyrwyddo a Marchnata

Mae'r pwyntiau isod ymhlith dyletswyddau cyffredinol statudol Cyfarwyddwyr:

1. Sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i ddogfen llywodraethu, cyfraith cwmnïau ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill.
2. Sicrhau bod y sefydliad yn dilyn ei amcanion fel y'u diffinnir yn ei ddogfen lywodraethu.
3. Sicrhau bod y sefydliad yn defnyddio ei adnoddau i ddilyn ei amcanion yn unig.
4. Cyfrannu'n weithgar i rôl bwrdd y Cyfarwyddwyr wrth roi cyfeiriad strategol cadarn i'r sefydliad, gosod polisi cyffredinol, diffinio nodau a gosod targedau a gwerthuso perfformiad yn unol â'r targedau y cytunir arnynt.
5. Diogelu enw da a gwerthoedd y sefydliad.
6. Sicrhau y gweinyddir y sefydliad yn effeithiol ac yn effeithlon.
7. Sicrhau sefydlogrwydd ariannol y sefydliad.
8. Gwarchod a rheoli eiddo'r sefydliad a sicrhau y buddsoddir yr arian yn briodol.
9. Penodi'r prif swyddog gweithredol a monitro ei berfformiad.
10. Rôl wirfoddol, ddi-dâl yw hon.

*(Os bydd angen gallwch ddefnyddio dalen ar wahân)*

| |
|---|
| Cadarnhaf fod y wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n cytuno y gall y cais hwn a'r holl wybodaeth a gynhwysir ynddo ffurfio rhan o adroddiad cyhoeddus i'r Pwyllgor Safonau. Rwy'n gwneud cais am ollyngiad mewn perthynas â'r mater uchod. |
| Llofnod: C W Dyer Dyddiad: 14 / 10 /18 |

Dylech ddychwelyd y ffurflen hon at y Swyddog Monitro, Adran y Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP.